25. Rhaeadau Melincwrt

Resolfen, Castell-nedd, Port Talbot

Cyfeiriadau Grid	Map Explorer 166 yr A.O., Y Rhondda a Merthyr Tudful; Prif fynedfa: SN822020, Canolfan y safle: SN825017
Statws	
Daliadaeth	Prynwyd y safle fis Medi 1986 gyda chymorth grant gan y Comisiwn Cefn Gwlad a CFEN a chymorth ariannol gan Gronfa Dir y CFCN.
Maint	5.2 he (12.8 erw).
Lleoliad a Nodiadau Mynediad	0.5 km i'r de orllewin o Resolfen, 8 km i'r gogledd ddwyrain o Gastell-nedd, ar y ffordd rhwng Resolfen a Tonna, y B4434. Gwelir arwyddion Rhaeadrau Melincwrt o'r A465 (P). Mae'r Cyngor Sir yn darparu maes parcio ar ochr orllewinol y ffordd, gyferbyn â mynedfa'r warchodfa. Mae'r llwybrau troed cyhoeddus yn y warchodfa'n dilyn glan ddeheuol yr afon, i waelod y rhaeadrau.
Cludiant cyhoeddus	Bysus rhifau X5 ac X6 o Orsaf Fysus Quadrant yn Abertawe neu Orsaf Drenau Castell-nedd.

Disgrifiad: Coetir o dderw hynafol yr ucheldir, nant a rhaeadrau. Mae Rhaeadrau Melincwrt yn goetir o dderw aeddfed yr ucheldir [NVC: W9a, W11, W16a] sy'n dringo'n serth i fyny o geunant cul yn Nant Melincwrt. Rhwng y Derw Digoes ceir Bedw Arian cnotiog, Pisgwydd Dail Bychain, Ceirios Gwyllt, Criafol ac Afalau Surion Bach, tra mai Gwerni a welir yn bennaf ar lan y nant. Mae llawr y coetir yn garped o Glychau'r Gog (4-6) ac yna Llysiau'r Swynwr (6-8), sy'n dod i gymryd eu lle yn nes ymlaen yn ystod y flwyddyn. Mae'r Eglyn Cylchddail (4-5) a'r Eirinllys (6-8) wedi'u cyfyngu i'r llaciau gwlyb.

Cafodd y rhaeadr trawiadol sy'n wyth deg troedfedd o uchder, ar isafon yn perthyn i Afon Nedd, ei fraslunio gan Turner yn 1794.

Gan fod yr atmosffer lleol yn y cwm cul hwn yn glos, mae ugain rhywogaeth o redyn wedi'u cofnodi yn y warchodfa, yn cynnwys Duegredyn Gwyrdd (8-11), Rhedyn Codog Bregus (6-9), Marchredyn Gweir-aroglus (8-10) a Rhedynach Wilson (6-7). Ceir cynrychiolaeth dda o fryoffytau yma hefyd.

Ymhlith yr adar sy'n nodweddiadol o'r cynefin yma, ac yn dod yma i fagu, mae'r Tingoch, Telor y Coed a'r Gwybedog Brith, a gwelir Bronwen y Dŵr a'r Siglen Lwyd ar hyd y nant yn rheolaidd, drwy gydol y flwyddyn.

Ar ffin ogleddol y warchodfa, gwelir gweddillion ffwrnais chwyth a gwaith haearn. Adeiladwyd y rhain yn yr ail ganrif ar bymtheg ac agorwyd y gwaith yn 1708 ar gyfer canrif o gynhyrchu haearn. Roedd yr olwyn ddŵr fawr yn cael ei gyrru gan gamlas yn arwain dŵr o safle uwch ben Rhaeadrau Melincwrt.

Melincwrt Waterfalls 1 6/7/06, 10:31 am



Nodau Rheoli: Rheoli'r safle fel coetir lled-naturiol drwy ganiatáu adfywiad naturiol y coed brodorol ac osgoi pori drwy gynnal ffensys y terfynau.

Amseroedd da i ymweld	
Mawrth - Awst	Blodau'r coetir
Mai - Gorffennaf	Adar yn magu
Mehefin - Hydref	Rhedyn
Medi - Tachwedd	Ffwng
Hydref - Mawrth	Y rhaeadrau (yn arbennig wedi iddi fwrw glaw)